
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3013 (Cy.285)

PLANT A PHERSONAU IFANC

**Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol)
ac Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2002**

Wedi'u gwneud - - - 4 Rhagfyr 2002
Yn dod i rym - - - 1 Ionawr 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 23(2)(a) ac (f), 26(1),(2),(5) a (6) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(1), drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) ac Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2003.

(2) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Diwygio Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991

2.—(1) Caiff Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991(2) eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 5(1) (hysbysu am drefniadau)—

(a) yn lle is-baragraff (b) rhoddir—

“(b) the Health Authority for the area in which the child is living and, if it is different, the Health Authority (or, where applicable, Primary Care Trust) for the area in which the child is to be placed;”;

(b) yn is-baragraff (c), ar y diwedd, ychwanegir “ and, if it is different, for the area in which the child is to be placed;”;

(c) yn is-bargaraff (d), ar y diwedd, ychwanegir “and, where applicable, any registered medical practitioner with whom the child is to be registered following the placement;”.

(3) Yn lle rheoliad 7 (gofynion iechyd) rhoddir—

(1) 1989 p.41. Mae'r pwerau wedi'u rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol. Maent yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru drwy rinwedd adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), ac erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a'r cofnod mewn perthynas â Deddf Plant 1989 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw.

(2) O.S. 1991/890 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/2033, O.S. 1993/3069, O.S. 1995/2015 ac O.S. 1997/649.

“Health assessments

- 7.—(1) subject to paragraphs (3) and (4), a responsible authority shall—
- (a) before making a placement, or if that is not reasonably practicable, as soon as reasonably practicable after a placement is made, make arrangements for a registered medical practitioner to conduct an assessment, which may include a physical examination, of the child’s state of health;
 - (b) require the registered medical practitioner who conducts the assessment to prepare a written report of the assessment which addresses the matters listed in Schedule 2; and
 - (c) having regard to the matters listed in Schedule 2 and, unless paragraph (4) applies, to the assessment report, prepare a plan for the future health of the child if one which fully reflects the current needs of the child is not already in existence.
- (2) A responsible authority shall ensure that each child is provided during the placement with—
- (a) health care services, including medical and dental care and treatment; and
 - (b) advice and guidance on health, medical and dental care and health promotion issues appropriate to his needs.
- (3) Paragraph (1) does not apply if, within the three month period immediately preceding the placement, the child’s health has been assessed, and a report of the assessment prepared, in accordance with that paragraph.
- (4) Sub-paragraphs (a) and (b) of paragraph (1) do not apply if the child, being of sufficient understanding to do so, refuses to consent to the assessment.”.
- (4) Yn Atodlen 2 (ystyriaethau iechyd y mae angen i awdurdodau cyfrifol eu ystyried)—
- (a) ym mharagraff 1, ar y diwedd, ychwanegir “including his physical, emotional and mental health.”;
 - (b) ym mharagraff 2, ar y diwedd, ychwanegir “including, as far as practicable, his family health history.”; ac
 - (c) ym mharagraff 6, ar y diwedd, ychwanegir “and for advice and guidance on health, personal care and health promotion issues appropriate to the child’s needs.”.

Diwygio Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991

3.—(1) Caiff Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991(3) eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn lle rheoliad 6 (adolygiadau iechyd), rhoddir—

“Health reviews

- 6.—(1) Subject to paragraph (2), the responsible authority shall, in respect of each child who continues to be looked after or provided with accommodation by them—
- (a) arrange for an assessment, which may include a physical examination, of the child’s state of health, to be conducted by a registered medical practitioner, or a registered nurse or registered midwife acting under the supervision of a registered medical practitioner—
 - (i) at least once in every period of six months before the child’s fifth birthday; and
 - (ii) at least once in every period of twelve months after the child’s fifth birthday;

- (b) require the person who carried out the assessment to prepare a written report which addresses the matters listed in Schedule 2; and
 - (c) review the plan for the future health of the child which complies with regulation 7(1) (c) of the Arrangements for Placement of Children (General) Regulations 1991 at the intervals set out in sub-paragraphs (i) and (ii) of paragraph (a).
- (2) Sub-paragraphs (a) and (b) of paragraph (1) do not apply if the child, being of sufficient understanding to do so, refuses to consent to the assessment.”.
- (3) Yn Atodlen 3 (ystyriaethau iechyd y mae angen i awdurdodau cyfrifol eu ystyried)—
- (a) ym mharagraff 1, ar y diwedd, ychwanegir “including his physical, emotional and mental health.”;
 - (b) ym mharagraff 2, ar y diwedd, ychwanegir “including, as far as practicable, his family health history.”;
 - (c) ym mharagraff 6, ar y diwedd, ychwanegir “, and for advice and guidance on health, personal care and health promotion issues appropriate to the child’s needs.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(4)

4 Rhagfyr 2002

D Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(4) 1998 p. 38.

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r rheoliadau hyn, sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru, yn diwygio Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991 a Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991.

Effaith y diwygiadau fydd ymestyn y dyletswydd sydd ar awdurdod cyfrifol i hysbysu wrth leoli plentyn, fel ei fod yn cynnwys nid yn unig y cyrff a nodwyd yn yr ardal ble mae'r plentyn yn byw, ond y cyrff cyfatebol yn yr ardal lle caiff y plentyn ei osod yn ogystal. Mae hefyd yn darparu i awdurdodau cyfrifol ei gwneud yn ofynnol bod asesiad iechyd yn cael ei gynnal ac yna llunio cynllun iechyd ar gyfer y plentyn ac i sicrhau ei fod yn derbyn gwasanaethau gofal iechyd addas yn ystod y lleoliad.

Caiff Rheoliadau Adolygu Achosion Plant eu diwygio fel eu bod yn cynnwys adolygiad o'r cynllun iechyd fel rhan o'r broses adolygu a sefydlwyd o dan y Rheoliadau yna. Caiff oedran plant iau, y mae'n ofynnol cynnal eu hadolygiad iechyd bob chwe mis, ei ymestyn hyd at bum mlwydd oed.